

Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales

# Pecyn Swydd ar gyfer y Rheolwr Ymgysylltu

uchelgaisgogledd.cymru

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 3 |
| Am y swydd | 4 |
| Swydd Ddisgrifiad | 5 |
| Manylion Person | 7 |
| Ymunwch a'r Tîm | 9 |
| Ein Gwerthoedd | 10 |
| Amserlen Recriwtio | 11 |
| Gweithio i ni | 11 |
| Buddion | 12 |
| Cynllun Twf Gogledd Cymru | 13 |


Am fwy o wybodaeth am y swydd, cysylltwch â:




Stuart Whitfield
Rheolwr Rhaglen Digidol
swyddi@uchelgaisgogledd.cymru

# Amser cyffrous i ymuno â’r tîm

Rydym wrth ein bodd eich bod yn ystyried ymuno â thîm Uchelgais Gogledd Cymru. Rydym yn dîm o unigolion angerddol a brwdfrydig sy’n falch o fod yn rhan o ddatblygu economi Gogledd Cymru.

Fel Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd mae ein cyfrifoldebau yn cynnwys trafnidiaeth rhanbarthol, cynllunio strategol a llesiant economaidd. Rydym yn gyfrifol am gyflawni portffolio o brosiectau cyfalaf ar draws y rhanbarth drwy Gynllun Twf Gogledd Cymru, gyda nifer o brosiectau bellach yn weithredol.

Mae Uchelgais Gogledd Cymru yn bartneriaeth gref, sy’n gweithio ar ran Gogledd Cymru i gyflawni yn erbyn gweledigaeth ar gyfer ffyniant economaidd i’r dyfodol. Sefydlwyd y Swyddfa Rheoli Portffolio i gyflawni'r Cynllun Twf, ac bellach mae y cylch gwaith ehangach gan fod yn Gyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd. Mae'r tîm yn cefnogi uchelgeisiau rhanbarthol ar gyfer economi gryfach, mwy gwydn a chynaliadwy yn y dyfodol.

Ein huchelgais wrth symud ymlaen yw denu buddsoddiad i Ogledd Cymru a chyflawni dyfodol mwy lle wyrchus i bawb sy’n byw ac yn gweithio yma. Bydd prosiectau’r Cynllun Twf yn creu swyddi newydd â chyflogau uchel, yn denu buddsoddiad ac yn y pen draw yn adeiladu economi fwy bywiog, cynaliadwy a gwydn yn ein cymunedau, ar gyfer pobl ifanc ac ar gyfer cenedlaethau’r dyfodol.

Rydym yn gweithio'n agos fel tîm ac wedi datblygu set o werthoedd sy'n ategu sut rydymyn gweithio a'r hyn rydym yn ei ddisgwyl gan eraill. Rydym yn uchelgeisiol, rydym yn grymuso ac yn cefnogi ein gilydd i lwyddo, mae gennym uniondeb ac rydym yn gwneud fel y dywedwn ac rydym yn parchu ac yn gwerthfawrogi pobl a'u safbwyntiau wrth i ni lunio dyfodol gwych i Ogledd Cymru. Gobeithiwn y byddwch yn ystyried gwneud cais am y swydd hon a gobeithio y byddwch yn ymuno â ni ar y daith.



**Cyng. Mark Pritchard**

Cadeirydd Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd



**Alwen Williams**

Prif Weithredwr Uchelgais Gogledd Cymru

# Am y swydd

## RHEOLWR YMGYSYLLTU

Mae Uchelgais Gogledd Cymru yn gobeithio penodi dau Reolwr Ymgysylltu i gyflawni prosiectau o fewn y Rhaglen Cysylltedd Digidol.

Rhaglen Cysylltedd Digidol

Bydd y rhaglen hon yn mynd i'r afael â heriau cysylltedd yng Ngogledd Cymru. Tra bod gweddill y DU wedi elwa o wasanaethau gwell yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae llawer o'n cymunedau yn dal i fod heb gysylltedd digidol dibynadwy. Bydd y rhaglen yn gwella gallu ein rhanbarth i ddatblygu technolegau ar gyfer y dyfodol, gan sicrhau y gallwn ateb y galw cynyddol am ddigidol ac elwa o gysylltedd cyflym o ansawdd uchel. Bydd y rhaglen hon yn cyflwyno cysylltedd cynaliadwy i'r rhanbarth, yn denu mewnfuddsoddiad ac yn gwella'r ddarpariaeth ar gyfer mwy o drigolion a busnesau.

Ar hyn o bryd mae pedwar prosiect o fewn y rhaglen:

- Canolfan Prosesu Signal Digidol
- Di-wifr Uwch
- LPWAN
- 4G+

Yn ogystal â phrosiectau'r Cynllun Twf, mae Uchelgais Gogledd Cymru yn chwarae rhan allweddol wrth gyflawni strategaethau a chynlluniau gweithredu rhanbarthol eraill ac mae cyfle o fewn y rhaglen i weithio ar feysydd gwaith a chyfleoedd ariannu a allai ychwanegu gwerth at y rhaglen.

Fel y Rheolwr Ymgysylltu, mae hon yn rôl ddeinamig a chydweithredol i arwain ymgysylltu ar draws ein prosiectau cysylltedd digidol. Bydd y Rheolwr Ymgysylltu yn estyn allan yn effeithiol ac yn creu partneriaethau cryf gyda rhan-ddeiliaid y sector cyhoeddus a'r sector preifat i gefnogi'r broses o gyflwyno seilwaith symudol a di-wifr yn llwyddiannus ledled Gogledd Cymru.

Bydd y Rheolwr Ymgysylltu yn chwarae rhan greiddiol wrth hyrwyddo cynlluniau arian grant sydd ar gael - gan ymgysylltu â sefydliadau cymwys, eu tywys drwy'r prosesau ymgeisio, a chefnogi'r gwerthusiad o gynigion. Bydd adeiladu perthnasoedd dibynadwy gydag awdurdodau lleol, darparwyr telathrebu, busnesau a chymunedau yn hanfodol i sicrhau bod modd cyflawni amcanion y rhaglen yn effeithiol.

Gan weithio'n agos gyda Rheolwyr Prosiect a Rheolwr y Rhaglen Ddigidol, bydd y Rheolwr Ymgysylltu yn cefnogi cynllunio strategol, lliniaru risg, sicrwydd cyflawni, ac yn helpu i sicrhau bod prosiectau'n cyd-fynd â blaenoriaethau sefydliadol a rhanbarthol. Bydd y Rheolwr Ymgysylltu hefyd yn adnabod ac yn hyrwyddo cyfleoedd sy'n uchafu'r budd economaidd a chymunedol o fuddsoddiadau mewn seilwaith digidol.

Mae'r rôl hon yn gofyn am rywun sydd â sgiliau rhagorol mewn cyfathrebu a rheoli rhan-ddeiliaid, dealltwriaeth o heriau cysylltedd digidol, ac angerdd am ddatblygu rhanbarthol cydweithredol.

# Swydd Ddisgrifiad

## Pwrpas y swydd

Bydd y Rheolwr Ymgysylltu yn chwarae rhan hanfodol wrth yrru cyflawniad llwyddiannus prosiectau yn y rhaglen drwy arwain ar ymdrechion ymgysylltu ar draws cyrff sector cyhoeddus a rhanddeiliaid y diwydiant. Bydd deilydd y swydd yn gyfrifol am hyrwyddo amcanion y prosiect, gan ddatblygu cydweithio ystyrlon, a pharhau i adeiladu perthnasau cryf i alluogi defnydd effeithiol o'r isadeiledd digidol yng Ngogledd Cymru. Ffocws allweddol o'r rôl fydd codi ymwybyddiaeth o'r cynlluniau arian grant sydd ar gael.

| | |
|---|---|
| Cyflog | £41,771 - £44,075 (PS2) |
| Oriau | Hyd at 37 awr yr wythnos* |
| Cytundeb | Hyd at Mawrth 2028 |
| Lleoliad | Cyffordd Llandudno (hybrid gyda gweithio o gartref) |

*Mae'r swydd yn llawn amser, ond byddwn yn ystyried ceisiadau gweithio'n hyblyg ar gyfer yr ymgeisydd cywir

## Cyfrifoldebau Craidd y Tîm

- Cyfrifol am ymgorffori gwerthoedd ac ymddygiadau Uchelgais Gogledd Cymru.
- Cyfrifoldeb ar y cyd fel rhan o'r tîm i gyflawni blaenoriaethau Uchelgais Gogledd Cymru.
- Cyfrifol am gefnogi cydweithwyr ac aelodau'r tîm i gyflawni blaenoriaethau Uchelgais Gogledd Cymru.
- Gweithredu fel llysgennad i Uchelgais Gogledd Cymru a'r rhanbarth.



# Cyfrifoldebau Penodol i'r Rôl

- Arwain gweithgareddau ymgysylltu ar gyfer prosiectau yn y rhaglen gan sicrhau camau ymestyn allan a chydweithio effeithiol gyda rhanddeiliaid yn y sectorau cyhoeddus a phreifat.
- Hyrwyddo a hwyluso cyfranogiad mewn cynlluniau grant sydd ar gael - drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid cymwys, egluro meini prawf, ac arwain darpar ymgeiswyr a chefnogi'r gwaith gwerthuso.
- Adeiladu a chynnal perthnasau cryf gydag awdurdodau lleol, y sector cyhoeddus ehangach, darparwyr gwasanaeth isadeiledd telegyfathrebu a di-wifr, cymunedau, a busnesau, i gefnogi cyflwyniad llwyddiannus y prosiect.
- Cefnogi'r Rheolwr Prosiect perthnasol i gyflawni cynllun y prosiect, gan gyflawni amcanion y prosiect, adnabod risgiau, a chynnig strategaethau lliniaru.
- Cefnogi Rheolwr y Rhaglen Ddigidol a'r tîm ehangach gyda chynllunio strategol, datrys problemau a sicrwydd cyflawni ar draws pob prosiect, gan sicrhau aliniad â nodau sefydliadol a rhanbarthol.
- Gweithio gyda chydweithwyr a phartneriaid allanol i adnabod a hyrwyddo cyfleoedd sy'n gwneud y mwyaf o'r budd cymunedol ac economaidd o'r prosiectau yn y rhaglen.
- Monitro ac adrodd ar weithgareddau ymgysylltu ac adborth rhanddeiliaid i'r Rheolwr Prosiect perthnasol, gan wneud argymhellion i wella effeithiolrwydd prosiectau a chydweithio rhanbarthol.
- Cefnogi cytundebau mynediad drwy gysylltu ag awdurdodau lleol a pherchnogion eiddo i annog mabwysiadu er mwyn hwyluso'r defnydd o rwydweithiau di-wifr symudol ac uwch, tra'n cynnal cyfathrebu tryloyw gyda rhanddeiliaid y diwydiant ynghylch cyfleoedd a phrosesau.
- Cyfrannu at Brosiect / Byrddau Rhaglen cysylltedd digidol perthnasol fel bo'r angen.
- Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau gofynnol a rhesymol eraill sy'n gymesur â lefel y rôl i gefnogi cyflawniad blaenoriaethau sefydliadol.



## Ein Gwerthoedd

**Rydym yn Uchelgeisiol**
Rydym yn ymdrechu i gyflawni'r gorau ar gyfer Gogledd Cymru. Rydym yn arweinwyr yn ein meysydd, ffurfwyr barn a dylanwadwyr, ac rydym yn herio meddwl confensiynol. Rydym yn dilyn safonau uchel, yn anelu at fod yn ein gorau, ac yn datblygu ein hunain yn broffesiynol yn barhaus.

**Rydym yn gweithio ar y cyd**
Rydym yn rhannu gwybodaeth, sgiliau, gwybodaeth a chefnogaeth ac yn sicrhau ein bod yn rhoi gwybod i gydweithwyr. Rydym bob amser yn helpu ein gilydd, yn hwyluso cyfleoedd i Ogledd Cymru ac yn cydnabod bod ein heffaith ar y cyd yn fwy sylweddol na'n heffaith unigol.

**Rydym yn gwneud y peth iawn**
Rydyn ni'n gwneud y peth iawn, nid yr hyn sy'n hawdd. Rydym yn herio ymddygiad anfoesegol ac yn siarad pan nad yw pethau'n teimlo'n iawn. Rydym yn barchus, yn deg ac yn ystyriol a gallwn ymddiried ynddo i gyflawni ymrwymiadau y cytunwyd arnynt ar amser.

**Rydym yn gwneud gwahaniaeth**
Rydym yn mynd ar drywydd cyfleoedd i wneud gwahaniaeth yng Ngogledd Cymru. Rydym yn hyrwyddo'r Gymraeg, treftadaeth a diwylliant ac yn cefnogi elusennau rhanbarthol. Rydym yn diogelu'r amgylchedd ac yn chwilio am gyfleoedd i leihau ein hôl troed.

## Ymddygiadau craidd i bob rôl

- Arweinyddiaeth - rydym oll yn arwain drwy esiampl ac rydym i gyd yn arweinwyr yn ein meysydd ein hunain.
- Cyfrifoldeb - rydym yn cymryd cyfrifoldeb am ein gwaith, ein perfformiad a'n datblygiad.
- Parch - rydym yn parchu ein cydweithwyr, ein partneriaid a'n rhanddeiliaid ac yn arddangos hyn drwy ein gwaith ac yn y ffordd yr ydym yn adeiladu perthnasau effeithiol.



# Manylion Person

## Addysg

- Addysg i lefel gradd neu gyfwerth neu'n medru arddangos profiad perthnasol.

## Profiad, Gwybodaeth a Sgiliau

- Profiad o arwain gweithgareddau ymgysylltu mewn isadeiledd, telegyfathrebu, cefnogaeth busnes, y sector cyhoeddus, datblygiad economaidd neu debyg, gan gynnwys cydlynu ymgysylltiad nifer o randdeiliaid ar yr un pryd.
- Dawn wedi'i phrofi o ran adeiladu perthnasau effeithiol gydag amrediad eang o randdeiliaid, gan gynnwys sefydliadau cyhoeddus a phreifat.
- Profiad o gyflwyno a hyrwyddo cynlluniau grant ac/neu fentrau eraill, yn cynnwys arwain ymgeiswyr a rheoli faint sy'n cymryd mantais o'r cynlluniau.
- Sgiliau cyfathrebu a chyflwyno cryf, gyda phrofiad o gyflwyno negeseuon i gynulleidfaoedd amrywiol.
- Gwybodaeth am, neu brofiad perthnasol yn y sector telegyfathrebu a mentrau isadeiledd digidol ledled y DU.
- Gwybodaeth am yr heriau isadeiledd digidol a'r cyfleoedd yng Ngogledd Cymru a'r DU.
- Sgiliau trefnu da a'r gallu i weithio ar sawl blaenoriaeth ar yr un pryd.
- Dealltwriaeth o arferion rheolaeth ariannol.
- Gallu rheoli gwrthdaro, goresgyn gwrthwynebiadau a sgiliau negodi a dylanwadu gwych.
- Gallu cynhyrchu gwaith o ansawdd uchel tra'n gweithio i amserlen dynn.

## Gofynion Iaith

Ar gyfer y rôl hon mae'r gofynion canlynol yn DDYMUNOL:

- Gwrando a Siarad - Yn gallu ymdrin â holl agweddau'r swydd yn llafar mewn modd hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- Darllen a Deall - Yn gallu defnyddio a dehongli unrhyw wybodaeth yn gywir o amrywiaeth eang o ffynonellau, yn y Gymraeg ac yn Saesneg, er mwyn gallu ymdrin â phob agwedd o'r swydd.
- Ysgrifennu - Yn gallu cyflwyno gwybodaeth ysgrifenedig yn hollol hyderus yn y Gymraeg ac yn Saesneg gan ddefnyddio'r ieithwedd a'r arddull fwyaf priodol i gwrdd ag anghenion y darllenydd.
- Dealltwriaeth o bwysigrwydd yr iaith Gymraeg i'r rhanbarth a pharodrwydd i ddatblygu a gwella eu sgiliau iaith Gymraeg.

# Ymunwch a’n tîm

A oes gennych chi angerdd dros Ogledd Cymru ac awydd i weld y rhanbarth yn tyfu ac yn cyflawni ei botensial? Ydych chi'n frwdfrydig, yn ymroddedig ac yn chwaraewr tîm?

Os felly, fe allech chi fod y person rydyn ni’n chwilio am i ymuno â'n tîm.

Fel partneriaeth mae cydweithio a gweithio mewn partneriaeth yn graidd i’r hyn ydym yn ei wneud fel tîm. Rydym yn chwilio am unigolyn sydd â sgiliau rhyngbersonol rhagorol, sy’n frwd dros weithredu i’r rhanbarth ac yn gallu datblygu a chynnal perthnasoedd ar draws partneriaid i yrru'r prosiectau yn eu blaenau.

Er bod gan bob rôl o fewn y tîm ei ffocws ei hun, bydd disgwyl i chi gyfrannu at waith ehangach y tîm a llwyddiant y tîm cyfan. Rydym yn chwilio am chwaraewyr tîm sy'n gallu arwain eu meysydd eu hunain ond hefyd yn cefnogi eu cydweithwyr i gyflawni. Yn gyfnewid am hyn, fe welwch lwyth gwaith amrywiol a diddorol gyda chyfleoedd i gyfrannu ar draws ein portffolio.

Mae datblygiad proffesiynol a phersonol yn bwysig i ni. Bydd y tîm yn Uchelgais Gogledd Cymru yn rhoi amgylchedd gefnogol i chi barhau â'ch datblygiad gyda nifer o gyfleoedd datblygu ffurfiol ac anffurfiol ar gael. Rydym yn annog ein tîm i ddilyn cyfleoedd datblygu proffesiynol ac rydym yn chwilio am unigolion sydd â'r awydd i ddysgu a gwella.

Mae rhai o’n rolau yn gofyn am sgiliau Cymraeg, fodd bynnag, rydym yn chwilio am unigolion sy’n cydnabod pwysigrwydd y Gymraeg, sydd ag empathi at y diwylliant Cymreig ac sydd wedi ymrwymo i wella eu sgiliau ieithyddol. Os yw hyn yn swnio fel chi, edrychwn ymlaen at glywed gennych.

Mae Gogledd Cymru yn lle ardderchog i fyw a gweithio, beth am chwarae rhan allweddol wrth lunio ei ddyfodol?



**Hedd Vaughan-Evans**

Pennaeth Gweithrediadau
Uchelgais Gogledd Cymru

# Amserlen Recriwtio

| | | |
|---|---|---|
| **Dyddiad cau** | Dylid cyflwyno ceisiadau erbyn | 10yb 11/09/2025 |
| **Rhestr Fer** | Byddwn yn anelu i gysylltu gyda y rhai sydd ar y rhestr fer erbyn y dyddiad yma gyda manylion dyddiadau yr asesiadau a'r cyfweliad. | erbyn 19/09/2025 |
| **Asesiadau** | Bydd asesiadau yn cymryd lle cyn y cyfweliad. Byddwch yn derbyn y manylion os ar y rhestr fer. | erbyn 03/10/2025 |
| **Cyfweliadau** | Bydd union ddyddiad/amser yn cael ei gadarnhau ar lunio y rhestr fer. | 09/10/2025 |

# Y Broses Ymgeisio

Dilynwch y linc yma i gysylltu â phorth recriwtio Cyngor Gwynedd. Bydd gofyn i chi greu cyfrif i gyflwyno cais.

Cofiwch lenwi pob adran o'r ffurflen. Mae croeso i chi gyflwyno eich ffurflen yn Gymraeg neu Saesneg.

Ar ôl y dyddiad cau bydd panel asesu yn asesu eich cais yn erbyn y gofynion a nodir yn y fanyleb bersonol. Cofiwch sicrhau fod eich datganiad personol yn cyfarch yr holl ofynion hanfodol sydd wedi ei gosod allan yn y manylion person.

Bydd ymgeiswyr sy'n cyrraedd y rhestr fer yn cael eu gwahodd i gyfweliad, bydd manylion y cyfweliadau yn cael eu hanfon o leiaf wythnos ymlaen llaw.

Byddwn yn gofyn i ymgeiswyr gwblhau tasg cyn y cyfweliad (bydd manylion llawn yn cael eu cynnwys yn y llythyr cyfweliad).

Sylwch na fydd ceisiadau a ddaw i law ar ôl y dyddiad cau yn cael eu hystyried



# Y Cyflogwr

Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd ydi'r awdurdod cyflogi.

Mae Cyd-bwyllgorau Corfforedig (CBC) yn endidau llywodraeth leol corfforaethol, rhanbarthol newydd sydd â phwerau, dyletswyddau, llywodraethiant a strwythurau gweinyddol tebyg i awdurdodau lleol yng Nghymru.

Sefydlwyd pedwar CBC yng Nghymru ar 1 af o Ebrill 2021, yn seiliedig ar yr ardaloedd daearyddol y gofynnwyd amdanynt gan lywodraeth leol, ac yn adlewyrchu trefniadau cydweithio Rhanbarthol oedd yn bodoli eisoes. Mae Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd yn cynnwys y chwe awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru - Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Wrecsam ynghyd ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.  Mae Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd yn cael ei adnabod o dan y brand Uchelgais Gogledd Cymru.

Ar hyn o bryd mae gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig dri maes mae'n canolbwyntio arnynt - cynllunio strategol, trafnidiaeth strategol a llesiant economaidd.

# Buddion

**Mae nifer o fuddion o weithio i Uchelgais Gogledd Cymru, mae manylion llawn ar gael yma. Dyma grynodeb o'r prif fuddion:**

### Cynllun Pensiwn

Mae Uchelgais Gogledd Cymru yn gweithredu Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae gwybodaeth am y gronfa ar gael ar wefan Cronfa Bensiwn Gwynedd

### Gwyliau Blynyddol

Mae gan weithwyr yr hawl i rhwng 21 a 30 diwrnod o wyliau'r flwyddyn yn ddibynnol ar raddfa'r swydd. Yn ogystal, mae gan weithwyr hawl i 8 diwrnod o wyliau banc / gwyliau cyhoeddus a 3 ½ diwrnod arall

### Absenoldebau Arbennig

Yn ogystal â'r gwyliau uchod, gellir caniatáu absenoldeb gyda thâl mewn amgylchiadau arbennig megis symud tŷ, profedigaeth, mynychu apwyntiadau meddygol, ymgymryd a dyletswyddau cyhoeddus

### Cydbwysedd bywyd a gwaith

Mae Uchelgais Gogledd Cymru yn cynnig nifer o gyfleoedd gweithio'n hyblyg er mwyn helpu gweithwyr i daro cydbwysedd iach rhwng bywyd cartref a gwaith. Gall gweithiwr fanteisio o'r trefniadau canlynol:

- Cynllun gweithio oriau ystwyth
- Absenoldeb mamolaeth, tadolaeth a mabwysiadu
- Absenoldeb ychwanegol heb dâl i rieni a gofalwyr
- Gweithio'n hyblyg

### Hyfforddiant a datblygiad

Mae Uchelgais Gogledd Cymru yn gweld gwerth uchel mewn buddsoddi yn ei adnodd pwysicaf - sef ei weithwyr. Gall pob gweithiwr ddisgwyl:

- Proses anwytho ffurfiol ac adolygiadau perfformiad parhaus
- Ystod eang o gyfleodd hyfforddi a datblygu mewnol ac allanol ·
- Cyfraniad tuag at aelodaeth o gyrff proffesiynol sy'n berthnasol i'r gwaith

# Trosolwg o'r Cynllun Twf

- Adeiladu economi fwy bywiog, cynaliadwy a gwydn yng Ngogledd Cymru.
- Adeiladu ar ein cryfderau, hybu cynhyrchiant wrth fynd i'r afael â heriau tymor hir a rhwystrau economaidd i sicrhau twf cynhwysol.
- Hyrwyddo twf mewn modd graddadwy, cynhwysol a chynaliadwy, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

funded by:
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
UK Government
Llywodraeth y DU

## Buddsoddi

**£240M**
Targed Buddsoddi Cynllun Twf

Cyfanswm Targed Buddsoddiad Cynllun Twf **£1bn**

## Amcanion Gwariant

Creu hyd at
**4,200**
o swyddi newydd

Cynhyrchu hyd at
**£2.4bn**
o GVA ychanegol net

## Ein Rhaglenni

- Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Uwch
- Bwyd-amaeth a Thwristiaeth
- Cysylltedd Ddigidol
- Tir ac Eiddo
- Ynni Carbon Isel




## Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Uwch

Bydd y rhaglen hon yn hyrwyddo arloesedd a masnacheiddio technoleg yn y diwydiant gweithgynhyrchu, gan adeiladu ar gryfder presennol y sector yn ein rhanbarth.




## Bwyd-amaeth a Thwristiaeth

Bydd y rhaglen yn hyrwyddo ac yn cefnogi cyflogaeth a hyfforddiant yn y sectorau Bwyd-amaeth a Thwristiaeth, gan adeiladu ar sgiliau ac arbenigedd sydd eisoes wedi'u sefydlu yn y rhanbarth.





## Cysylltedd Ddigidol

Bydd y rhaglen yn gwella gallu ein rhanbarth i ddatblygu technolegau ar gyfer y dyfodol, gan sicrhau y gallwn ateb y galw cynyddol am gysylltedd ddigidol ac elwa o gysylltedd cyflym, o ansawdd uchel.




## Tir ac Eiddo

Bydd y rhaglen hon yn mynd i'r afael â heriau tir ac eiddo yn y rhanbarth, yn gwireddu cyfleoedd ac yn adeiladu ar ein cryfderau.




## Ynni Carbon Isel

Bydd y rhaglen yma'n sicrhau y budd o ddatblygu prosiectau ynni carbon isel yn y rhanbarth, gan gryfhau safle Gogledd Cymru fel lleoliad blaengar ar gyfer y sector ynni carbon isel.



uchelgaisgogledd.cymru

swyddi@uchelgaisgogledd.cymru